# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Hybrid – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i’r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

### 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 – 14.40)

**3.1 SL(6)422 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023**

(Tudalennau 1 – 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-35-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)421 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 5 – 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-35-23 – Papur 6 – Adroddiad drafft

### 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(14.40 – 14.45)

---

## 4.2 SL(6)417 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023

(Tudalennau 8 - 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-35-23 – Papur 23 – Adroddiad

LJC(6)-35-23 - Papur 24 - Ymateb Llywodraeth Cymru

# SL(6)422 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru)  (Diwygio etc.) 2023

## Cefndir a diben

Ym mis Gorffennaf 2021, llofnododd Llywodraeth y DU y cytundeb masnach rydd gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

Mae Pennod 12 o’r cytundeb masnach rydd yn sefydlu system fandadol ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng y DU, Norwy, Gwlad yr Iâ, a Liechtenstein (y gwladwriaethau sy'n bartïon). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr ledled y DU gydnabod cymwysterau proffesiynol ymgeiswyr o'r gwladwriaethau sy'n bartïon i'r cytundeb, pan fo'r cymwysterau hynny yn gymaradwy â'r cymwysterau sy'n ofynnol i gael mynediad i'r un proffesiwn, ac i'w ddilyn, yn y DU. Mae’r cytundeb masnach rydd hefyd yn nodi'r ffordd y mae rhaid ymdrin â cheisiadau am gydnabod cymwysterau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gynnig cyfnodau ymaddasu a phrofion gallu pan fo angen.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r cytundeb masnach rydd yng Nghymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr Cymreig gydymffurfio â'r darpariaethau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn y cytundeb masnach rydd. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio deddfwriaeth Cymru yn ôl yr angen i ystyried gweithredu’r cytundeb masnach rydd a diddymu deddfwriaeth flaenorol yn y maes hwn, sef Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar y rheoleiddwyr a ganlyn mewn perthynas â’r deuddeg o broffesiynau rheoleiddiedig Cymreig a restrir isod:

| **Rheoleiddiwr** | **Galwedigaethau** |
|---|---|
| Gweinidogion Cymru<br>Cyngor y Gweithlu Addysg<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Yr Asiantaeth Safonau Bwyd<br>Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | Dadansoddwr amaethyddol<br>Dadansoddwr bwyd<br>Archwilydd bwyd<br>Gyrrwr a chynorthwyydd proffesiynol sy’n ymgymryd â chludo da byw, ceffylau a dofednod<br><br>Dadansoddwr cyhoeddus<br>Athro neu athrawes ysgol<br>Cigyddwr<br>Rheolwr gofal cymdeithasol<br>Gweithiwr cymdeithasol<br>Gweithiwr gofal cymdeithasol mewn:-<br>- Gwasanaeth cartref gofal |

- Gwasanaeth cymorth cartref
- Gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd
- Gwasanaeth llety diogel

Gweithiwr cymorth ieuenctid

Gweithiwr ieuenctid

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Nid yw'n glir pam y diffinnir y gair "penodedig" yn rheoliad 2. Rhoddir ei ystyr fel "wedi ei bennu mewn rheoliadau", ond ni ddefnyddir y gair yn y cyd-destun hwn yng nghorff y Rheoliadau (yn hytrach na'r geiriad y mae'r Rheoliadau yn ei fewnosod mewn deddfwriaeth arall). Fe'i defnyddir dim ond fel rhan o'r ymadrodd "gwladwriaeth benodedig", a ddiffinnir fel gwladwriaeth benodedig yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, ac fel rhan o'r ymadrodd "gweithiwr proffesiynol gwladwriaeth benodedig" sy'n cysylltu'n ôl â'r diffiniad o wladwriaeth benodedig. Nid yw'n ymddangos felly bod unrhyw ddefnydd o'r gair "penodedig" yng nghyd-destun "wedi ei bennu mewn Rheoliadau", a gallai ei gynnwys fel term diffiniedig nad yw'n adlewyrchu'r modd y'i defnyddir yn y Rheoliadau achosi dryswch i'r darllenydd. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam mae diffiniad o "penodedig" wedi'i gynnwys yn rheoliad 2.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 8(6) yn cyfeirio at ddogfennau a ddilyswyd yn unol â chyfraith y Deyrnas Unedig. O dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ystyr y "Deyrnas Unedig" yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae'n ymddangos felly y dylai'r ddarpariaeth gyfeirio at gyfreithiau Cymru a Lloegr, a/neu'r Alban a/neu Ogledd Iwerddon os yw'n gymwys.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Yn y testun Saesneg, mae rheoliad 12(b) yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr Cymreig sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y “cyfreithiau perthnasol” sydd i’w cymhwyso o ran camau disgyblu, cyfrifoldebau ariannol ac ati. Yn y testun Cymraeg, nodir y “relevant laws” fel “deddfau perthnasol”.

I ni, mae “deddfau” yn gysylltiedig â “deddfwriaeth sylfaenol”, yn hytrach na’r cysyniad ehangach o “gyfreithiau”. Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa “gyfreithiau” y bwriedir eu cynnwys yn rheoliad 12(b) ac a oes unrhyw anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae’r rhagymadrodd i’r Rheoliadau yn nodi bod ymgynghoriad wedi’i gynnal fel sy’n ofynnol yn ôl Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002(1) Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002, sy’n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (“y Rheoliad”). Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori’n agored a thryloyw a chyhoeddus, yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychiadol, yn ystod y gwaith o baratoi, gwerthuso ac adolygu cyfraith bwyd, ac eithrio pan nad yw brys y mater yn caniatau hynny. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at ymgynghori â rheoleiddwyr o dan Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 (“Deddf 2022”) ond nid yw’n cynnwys dim manylion ynghylch ymgynghori o dan y Rheoliad. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa ymgynghoriad a gynhaliwyd ganddi o dan y Rheoliad, fel y nodir yn y rhagymadrodd.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y confensiwn y dylai fod 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri’r confensiwn a ddarperir gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, mewn llythyr llythyr at y Llywydd, dyddiedig 30 Tachwedd 2023.

Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y llythyr:

> *Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i wneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau'r DU"). . Mae Rheoliadau'r DU yn gweithredu ledled y DU ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb masnach rydd*

*rhwng Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy a'r Deyrnas Unedig ("y Cytundeb Masnach Rydd"), ac yn gwneud darpariaeth mewn meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru.*

*Mae Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau'r DU i ddarparu nad ydynt yn gymwys i reoleiddwyr Cymreig ar broffesiynau rheoleiddiedig penodedig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy.*

*Mae Rheoliadau Cymru hefyd yn gosod y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Masnach Rydd ar reoleiddwyr Cymreig ac maent yn diwygio deddfwriaeth sectorol yng Nghymru i adlewyrchu gweithredu'r Cytundeb Masnach Rydd a dirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.*

*Gan fod Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau'r DU, bu rhaid gohirio gwneud Rheoliadau Cymru nes bod Rheoliadau'r DU wedi'u gwneud ac yn bodoli yn y gyfraith. Ni osododd Llywodraeth y DU Reoliadau'r DU hyd 17 Hydref, ac ni wnaed y rhain hyd 29 Tachwedd. Roedd hyn yn golygu na ellid gwneud Rheoliadau Cymru hyd 30 Tachwedd. Gan fod rhaid i Reoliadau Cymru ddod i rym erbyn 1 Rhagfyr er mwyn cydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Masnach Rydd, mae hi felly yn angenrheidiol iddynt ddod i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddynt gael eu gwneud. Os nad yw Rheoliadau Cymru mewn grym erbyn y dyddiad hwnnw, mae risg y bydd rheoleiddwyr Cymreig a Gweinidogion Cymru yn torri'r Cytundeb Masnach Rydd ac yn methu â chyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol.*

Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion y trafodaethau a gafodd gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r DU uchod, er mwyn osgoi gwneud y ddwy gyfres o reoliadau mewn cyfnod mor fyr.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf 2022, y cafodd dau gynnig cydsyniad deddfwriaethol eu trafod yn y Senedd mewn perthynas â hwy cyn i'r Ddeddf honno gael ei phasio. Roedd Llywodraeth Cymru yn argymell bod cydsyniad y Senedd yn cael ei atal oherwydd bod pwerau cydredol i wneud rheoliadau wedi'u cynnwys, ac atalwyd y cydsyniad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r holl bwyntiau adrodd, ac eithrio pwynt 6.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Rhagfyr 2023**

# SL(6)421 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") a Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"). Mae'r diwygiadau'n addasu'r dyddiad perthnasol ar gyfer talu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 a Rheoliadau 2019.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2018 drwy ymestyn hyd eithriad presennol rhag talu ffioedd sydd fel arall yn daladwy mewn cysylltiad ag ardystio a gwasanaethau cyn-allforio ar lwythi ffytoiechydol mewn amgylchiadau penodol. Mae'r esemptiad yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025.

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019 drwy ddarparu esemptiad rhag talu ffioedd sydd fel arall yn daladwy mewn perthynas â cheisiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio) mewn amgylchiadau penodol. Mae'r esemptiad yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau hyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd y Rheoliadau hyn i ddechrau ar 7 Tachwedd 2023 a thrafododd y Pwyllgor y Rheoliadau ar 20 Tachwedd. Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd.

Nododd adroddiad y Pwyllgor bedwar pwynt adrodd. Penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ("y Gweinidog") gan ei fod yn ystyried bod angen rhagor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch dau o'r pwyntiau adrodd.

Roedd un o'r pwyntiau adrodd technegol yn gofyn i Lywodraeth Cymru sut y mae'n ystyried y byddai newid y dyddiad yn rheoliad 3(5D) yn adfer rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 gan ei fod wedi peidio â chael effaith ar 31 Rhagfyr 2022.

Roedd ymateb y Llywodraeth a ddaeth i law ar 20 Tachwedd yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *Nid yw rheoliad 3(5C) erioed wedi cael ei ddirymu, ond nid yw wedi cael unrhyw effaith gyfreithiol (hyd nes y Rheoliadau hyn) ers 1 Ionawr 2023. Mae rheoliad 3(5D) fel y'i diwygiwyd bellach ac sy'n sefyll ar wahân i reoliad 3(5C) yn adfywio rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 drwy ddarparu ar gyfer parhad effaith rheoliad 3(5C) yn ystod y cyfnod yn ôl-weithredol.*

Yn y llythyr at y Gweinidog, dywedwyd bod y Pwyllgor yn ystyried bod paragraff (5C) yn peidio â chael effaith ("ceases to have effect") yn gyfystyr â dirymiad ar y dyddiad penodedig, hyd yn oed os na ddefnyddir y gair "dirymu" yn benodol. Roedd y llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth i egluro pam nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ailddatgan yn benodol baragraff (5C) o reoliad 3 yn Rheoliadau 2019.

Gwnaeth y Gweinidog ymateb mewn llythyr dyddiedig 27 Tachwedd, gan nodi:

> *Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn yn ofalus. Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig bod y Rheoliadau yn glir, yn hygyrch, a bod modd eu rhoi ar waith. I'r perwyl hwn, rwyf wedi penderfynu tynnu'r Rheoliadau hyn yn ôl cyn y ddadl a drefnwyd ar eu cyfer ar 28 Tachwedd 2023.*
>
> *Rwy'n bwriadu gosod Rheoliadau diwygiedig i gyflawni'r un bwriad polisi. Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn dal i geisio estyn neu gymhwyso'r Cynllun Cymorth Symud ond byddant yn mynd i'r afael â'r pwyntiau penodol a godwyd gan y Pwyllgor.*
>
> *Yn benodol, bydd y Rheoliadau newydd yn ei gwneud yn eglur nad yw rheoliadau 3(5C) na 3(5D) yn gweithredu mewn cyfraith mwyach, ac yn ailddatgan y darpariaethau yn adrannau newydd 3(5E) a 3(5F).*

Mae'r Rheoliadau diwygiedig hyn yn ailddatgan y darpariaethau dan sylw fel paragraffau newydd (5E) a (5F) o reoliad 3 o Reoliadau 2019, fel y nodir yn llythyr y Gweinidog.

Roedd yr ail bwynt a godwyd gyda'r Gweinidog yn ymwneud â'r trydydd pwynt adrodd yn nodi ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng y Nodyn Esboniadol ac effaith y diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb:

> *Mae eglurder a chysondeb yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cydfynd â'r Rheoliadau yn ddymunol. Fodd bynnag, nid yw'r Nodiadau Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau ac mae'r Rheoliadau yn gywir.*

Er y gwnaeth y Pwyllgor gydnabod nad yw nodiadau esboniadol yn rhan o reoliadau, gofynnodd am farn y Gweinidog ynghylch a allai nodyn esboniadol sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n anghyson â'r rheoliadau cyfatebol effeithio'n andwyol ar hygyrchedd y gyfraith.

Er na roddwyd sylw uniongyrchol i'r pwynt hwn, mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau diwygiedig wedi'i ddiwygio.

**2. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwnaeth yr esemptiad rhag talu ffioedd y darperir ar ei gyfer gan Reoliadau 2019 ddod i ben yn anghywir ar 31 Rhagfyr 2022 ac o'r herwydd peidiodd rheoliad 3(5C) â chael effaith. Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff (5E) newydd yn rheoliad 3 sy'n ymestyn yr esemptiad rhag talu ffioedd. Mae'r paragraff (5F) newydd yn nodi bod paragraff (5E) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025.

Yr effaith yw, rhwng 1 Ionawr 2023 a'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, sef 30 Rhagfyr 2023, ni fydd eithriad rhag talu ffioedd wedi bod mewn grym. Fodd bynnag, nododd y Gweinidog y canlynol yn ei llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2023:

> *O ganlyniad i'r diwygiad hwn, ni fydd y rheoliadau drafft newydd yn ceisio gwneud darpariaeth ôl-weithredol mewn perthynas â rheoliad 3(5C) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019. Mae hyn yn golygu na fydd esemptiad ôl-weithredol rhag ffioedd ar gyfer symudiadau penodol o bren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi ei wahanu na pheiriannau coedwigaeth sydd wedi eu defnyddio. Yn hytrach, bydd yr esemptiad ffioedd perthnasol bellach ar waith rhwng 1 Ionawr 2024 a 30 Mehefin 2025. Yn anffodus, mae hyn yn golygu na fydd esemptiad ffioedd ar waith ar gyfer symudiadau penodol o ddeunyddiau penodol a reoleiddir ar gyfer 2023 am nad yw'r ddarpariaeth wedi ei hestyn yn flaenorol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, ystyrir bod y risg y gallai hyn gael effaith andwyol ar fusnesau yn isel.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Rhagfyr 2023**

# SL(6)417 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023

## Cefndir a diben

Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (**SASW**) yn pennu'r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi. Mae'r Gorchymyn hwn yn addasu'r SASW. Mae'r newidiadau yn cynnwys, yn gryno:

- ehangu cyfranogiad ymhlith prentisiaid ag anawsterau dysgu ac anableddau dysgu drwy gynnig hyblygrwydd o ran gofynion sgiliau hanfodol;
- caniatáu cymwysterau procsi ychwanegol fel dewis arall cydnabyddedig yn lle sgiliau hanfodol,
- gan gynnwys adran newydd ar brentisiaethau gradd a phroffesiynol, sy'n dileu'r gofynion o ran sgiliau hanfodol ar gyfer prentisiaethau ar y lefel hon.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 13 o bwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r Gorchymyn yn methu diffinio dogfen y SASW yn gywir. Nid oes cyfeiriad at y cyhoeddwr, y dyddiad y cafodd ei chyhoeddi na'r rhif ISBN ac nid oes hyperlinc i'r ddogfen. Mae hyn yn wahanol i'r dull clir a gymerwyd gan Lywodraeth y DU mewn Gorchymyn cyfatebol a addasodd y Fanyleb Safonau Prentisiaethau yn Lloegr yn 2018:

https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2018/946/article/2/made

Pan fydd deddfwriaeth yn cyfeirio at ddogfennau, mae'n bwysig bod darllenwyr yn gwybod yn union pa ddogfen y cyfeirir ati a ble y gallant ddod o hyd iddi.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Nid yw'n glir beth yw statws fersiwn Gymraeg y SASW. Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Gorchymyn yn addasu'r fersiwn Gymraeg o'r SASW. Rydym yn cymryd y bwriedir i'r addasiadau hyn gael effaith gyfreithiol.

Fodd bynnag, ni roddodd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Gorchymyn a roddodd effaith i'r SASW gwreiddiol yn ôl yn 2013[1] effaith ond i "The Specification of Apprenticeship Standards for Wales (SASW)", h.y. y fersiwn Saesneg o'r SASW.

Felly, nid yw'n glir pryd y cafodd y fersiwn Gymraeg o'r SASW effaith gyfreithiol a beth yw statws presennol y fersiwn Gymraeg.

Pan addaswyd y SASW ddiwethaf yn 2016,[2] fe'i haddaswyd yn Saesneg yn unig.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn y fersiwn Gymraeg, mae dyddiad llofnod y Gweinidog yn Saesneg.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 1 newydd o'r SASW, ymddengys fod gwall ar ddiwedd y frawddeg a ganlyn, gyda'n pwyslais ni wedi'i ychwanegu:

> "Mae'n cynnwys adran newydd ar brentisiaethau gradd a phroffesiynol (lefelau 6 a 7), sy'n dileu'r gofynion o ran sgiliau hanfodol ar gyfer prentisiaethau **ar y lefel hon**".

Drwy gyfeirio at "lefelau 6 a 7", tybed a ddylai "ar y lefel hon" ddarllen "ar y lefelau hyn", gan y byddai hyn yn arbed unrhyw ddryswch o ran yr hyn y mae "ar y lefel hon" yn ei olygu.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r SASW bresennol yn cynnwys dwy golofn – colofn gyntaf sy'n cynnwys testun y gofyniad, ac ail golofn sy'n cynnwys cyfeiriad at yr adran berthnasol yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009; gweler y darn hwn o'r SASW bresennol er enghraifft:

| | |
|---|---|
| 6. Rhaid i fframwaith fod yn 37 o gredydau o leiaf ond lle y bo'n briodol, gall fod yn fwy na hyn; mewn sawl achos bydd fframweithiau gryn dipyn yn fwy na 37 o gredydau. Ni ddylai fframwaith fod mor gul fel nad yw ond yn berthnasol i weithle penodol lle yr enillwyd y brentisiaeth. | Adran 31(2)(a) |

[1] Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) 2013
[2] Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2016

Fodd bynnag, lle y mae'r Gorchymyn yn mewnosod paragraff newydd (megis paragraff 16A), dim ond y golofn gyntaf y mae'n mewnosod – nid oes ail golofn wedi'i mewnosod. Os nad oes adran berthnasol yn Neddf 2009 i gyfeirio ati, er eglurder, byddai'n dal yn ddefnyddiol cynnwys ail golofn i esbonio hynny.

Yn yr un modd, lle y mae'r Gorchymyn yn addasu paragraff sy'n bodoli eisoes (megis paragraff 6 uchod), nid yw'r Gorchymyn yn nodi mai dim ond i'r golofn gyntaf y mae'r addasiad. Fodd bynnag, rydym yn cymryd bod hynny'n wir ac nad yw'r ail golofn wedi'i haddasu.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 10 newydd, mae'r cysylltair "a" yn cysylltu is-baragraffau (a), (b) ac (c) ar ôl is-baragraff (a) ac mae'r cysylltair "neu" yn eu cysylltu ar ôl is-baragraff (b). Fodd bynnag, mae'r canllawiau Drafftio Deddfau i Gymru yn rhybuddio rhag cymysgu cysyllteiriau gwahanol wrth gysylltu rhaniadau fel sydd wedi'i wneud yn yr is-baragraffau hyn. Mae hyn oherwydd ei bod yn arwain at amwysedd wrth ddehongli'r berthynas rhwng yr is-baragraffau.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff newydd 16A, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau "Essential Communication Skills and Essential Application of Number Skills" wedi'u cyfieithu'n wahanol ac yn anghyson yn y lle cyntaf y maent yn digwydd ar dudalen 6, ac yn yr ail le sy'n gywir.

Yn y lle cyntaf, maent wedi'u cyfieithu'n anghywir i olygu "Essential Communication and Application of Number Skills".

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Rydym yn nodi'r anghysondebau a ganlyn mewn terminoleg.

- Yn yr Atodlen, yn y testun Saesneg, mae'r ymadrodd "learning difficulty or disability" wedi'i ddefnyddio mewn sawl lle. Fodd bynnag, ym mharagraff newydd 16A, mae "learning difficulty or learning disability" wedi'i ddefnyddio. Hefyd, ym mharagraff 24 newydd, mae "learning difficulties or a learning disability" wedi'i ddefnyddio. Felly, mae amrywio yn y derminoleg sy'n creu ansicrwydd.
- Ym mharagraff newydd 16A, yn y testun Cymraeg, yn y pumed paragraff, mae'r ymadrodd "learning difficulty or disability" wedi'i gyfieithu i olygu "learning difficulty or learning disability", ac felly mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg.
- Yn nhestun Saesneg yr Atodlen, ceir cyfeiriad at "maths" a "mathematics". Nid yw'n glir pam y mae'r ddau derm wedi'u defnyddio pan nad yw "maths" wedi'i ddefnyddio yn y SASW bresennol.

- Mae ansicrwydd yn codi mewn cysylltiad ag enw un cymhwyster a restrir yn yr Atodlen. Yn benodol, ar dudalennau 12 a 18 o'r Gorchymyn, ceir cyfeiriad at "International Baccalaureate Diploma Standard or Higher Level Qualification in…Mathematical". Nid ymddengys fod y defnydd o "Mathematical" ar y diwedd ar ei ben ei hun yn iawn.
- Yn yr Atodlen, yn y testun Saesneg, mae'r term "proxies" wedi'i ddefnyddio ym mharagraff newydd 25A ac ym mharagraff 36 newydd. Fodd bynnag, mae "proxy qualifications" wedi'i ddefnyddio mewn lleoedd eraill yn yr Atodlen ac yn y SASW bresennol. Yn y testun Cymraeg, mae wedi'i gyfieithu i "cymwysterau procsi" drwy'r Atodlen a'r cyfieithiad presennol o'r SASW. Felly, mae'r testun Saesneg yn anghyson wrth ddefnyddio'r term "proxies" mewn lleoedd.
- Yn yr Atodlen, yn y testun Saesneg, mae'r acronym "IBO" wedi'i ddefnyddio yng ngholofn gyntaf y tablau mewn sawl lle mewn perthynas ag "IBO Middle Years Programme Level 1 / 2 Certificate". Fodd bynnag, nid yw'r acronym hwnnw wedi'i ddefnyddio yn unrhyw le arall yn y tablau, lle y mae "International Baccaleureate" wedi'i ddefnyddio'n llawn. Yn ogystal, ymddengys fod gwefan y sefydliad yn defnyddio "IB" fel ei acronym. Yn y testun Cymraeg, mae enw llawn y Fagloriaeth Ryngwladol wedi'i ailadrodd ym mhob lle cyfatebol.
- Ym mharagraff 35 newydd, ceir cyfeiriad at eithriadau "ar gyfer pobl". Fodd bynnag, mae darpariaeth gyfochrog ym mharagraff 24 newydd yn cyfeirio at eithriadau "mewn cysylltiad â phrentisiaid".

**9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r Gorchymyn yn rhoi paragraff 24 newydd yn lle'r paragraff 24 presennol. Fodd bynnag, ymddengys fod testun newydd paragraff 24 yn ymdrin â mater yr ymdrinnir ag ef ym mharagraff 25 presennol. Byddai hyn yn golygu y byddai gan y SASW fel y'i haddaswyd gan y Gorchymyn hwn ddau baragraff (h.y. paragraffau 24 a 25) sy'n ymdrin â'r un mater, ond mewn ffyrdd ychydig yn wahanol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau bod paragraff 24 newydd a pharagraffau newydd 25A a 25B wedi'u rhifo'n gywir ac y byddant yn cael eu mewnosod yn y SASW newydd fel y bwriadwyd.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn y tabl newydd yn union ar ôl paragraffau newydd 25B a 36A, mae'r pennawd "Cymhwyster Saesneg" yn ymddangos uwchben y golofn gyntaf. Fodd bynnag, mae'r golofn honno'n cynnwys cymwysterau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain. Nid yw'n glir pam y mae'r mathau hynny o gymwysterau wedi'u cynnwys o dan y pennawd "Cymhwyster Saesneg".

**11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn y fersiwn Gymraeg o'r Atodlen, nid yw'r ymadrodd "Pre U" (yr ydym yn deall ei fod yn cyfeirio at gymhwyster cyn y brifysgol) wedi'i gyfieithu yn enw rhai cymwysterau. A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyfieithiad Cymraeg i'r ymadrodd?

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Ym mharagraff 35 newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – mae'r testun Cymraeg yn cynnwys geiriau ychwanegol. O ganlyniad, mae "as outlined in paragraph 16A" wedi'i gyfieithu i olygu "as well as those qualifications outlined in paragraph 16A".

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 13 o'r Atodlen yn newid y "pennawd ym mharagraff 38". Nid oes unrhyw benawdau "ym" mharagraff 38. Mae pennawd eang sy'n cwmpasu paragraffau 38 i 42 ac mae pennawd culach sy'n cwmpasu paragraffau 38 i 40. Rydym yn cymryd mai'r pennawd ehangach sydd wedi'i newid, ond dylai hyn fod wedi cael ei egluro yn y Gorchymyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**14. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff newydd 16A o'r SASW yn cydnabod y gall prentisiaid ag anhawster dysgu neu anabledd dysgu wynebu rhwystrau i gyfranogiad mewn prentisiaethau. O ganlyniad, mae paragraff 16A yn caniatáu eithriadau mewn perthynas â gofynion sylfaenol penodol. O ran y gofynion sylfaenol ar gyfer Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif, gellir addasu'r gofynion sylfaenol, ond dim ond pan fo amodau penodedig wedi'u bodloni (gweler y gofyniad am yr "**holl**" amodau ym mharagraff 16A sydd i'w bodloni).

O ystyried bod paragraff 16A yn darparu ar gyfer addasiadau rhesymol, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro'r berthynas rhwng paragraff 16A a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn llai rhagnodol o ran pryd y gellir gwneud addasiadau rhesymol.

**15. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym wedi nodi uchod rai o'r addasiadau y mae'r Gorchymyn hwn yn eu gwneud i'r SASW. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes unrhyw newid i bolisi ac nad oes unrhyw bolisïau newydd yn cael eu gweithredu.

Nodir ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *"Gan nad oes unrhyw newid i bolisi, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Unig bwrpas yr orchymyn[sic] yw galluogi i'r ddeddfwriaeth gyfredol gael ei diweddaru i gyflawni ymrwymiadau'r polisi prentisiaethau, lle mae ymgynghoriadau technegol a chyhoeddus wedi'u cynnal.*

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro beth yw'r ymrwymiadau polisi hynny, a ble a phryd y cawsant eu nodi. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall safbwynt Llywodraeth Cymru nad yw'r Gorchymyn yn gweithredu polisi newydd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023**

Pwyntiau Craffu Technegol 1 i 13:

Derbynnir y pwyntiau craffu technegol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dirymu'r Gorchymyn hwn cyn iddo ddod i rym a gwneud Gorchymyn arall i fynd i'r afael â'r pwyntiau hynny ar ddechrau 2024.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Mae paragraff newydd 16A yn cydnabod y bydd rhesymoldeb addasiad yn dibynnu ar amgylchiadau unigolyn, ac ar y meini prawf a nodir pan fydd yn debygol o fod yn rhesymol i addasu'r gofynion sylfaenol o ran sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhif.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Yr ymrwymiadau polisi y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Esboniadol yw'r rhai a amlinellir yn y dogfennau a ganlyn:

- 'Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru' (2017) (gweler https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cysoni%E2%80%99r-model-prentisiaethau-ag-anghenion-economi-cymru.pdf a oedd yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn 2015 (gweler https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-adroddiad-cryno-o-ymatebion-ir-ymgynghoriad-cysonir-model), a
- 'Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau' (2018), a ddatblygwyd drwy ymgynghori â sefydliadau anabledd arbenigol yn dilyn adroddiad gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (gweler https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/prentisiaethau-cynhwysol-cynllun-gweithredu-ar-anabledd-ar-gyfer-prentisiaethau-2018-21.pdf).